# Darganfod Rhywogaeth Ystlumod Prin yn Sir Benfro

Yn sgil arolwg diweddar cafwyd tystiolaeth o'r ystlumod hirglust llwydion (*Plecotus austriacus*) yn Sir Benfro. Nid yw'r rhywogaeth hon wedi'i chofnodi o'r blaen yn y Sir a'r gred oedd ei bod wedi'i chyfyngu ym Mhrydain i dde a de orllewin Lloegr. Er ei bod yn weddol gyffredin yn Ewrop, mae'n brin ym Mhrydain gan mai dyma ben mwyaf gogleddol ei thiriogaeth.

Yn debyg i ystlumod hirglust eraill maent yn hoff o glwydo mewn toeau mawr le gallant hedfan o gwmpas, ond maent yn aml yn clwydo y tu ôl i grib y trawstiau felly nid yw'n hawdd eu gweld. Mae lleoliad atsain ystlumod hirglust yn dawel iawn, felly mae eu hadnabod yn eu cynefin yn anodd. Yn yr achos hwn, nodwyd yr ystlumod trwy ddadansoddiad DNA o'r tail.

Mae gan Sir Benfro lawer o'r rhywogaethau ystlumod a geir ym Mhrydain. Mae poblogaeth iach o ystlumod yn arwydd da o ecosystem iach a chynefinoedd a gysylltwyd yn dda. Gan fod y rhywogaeth hon yn aml yn clwydo mewn adeiladau, mae'n agored iawn i niwed oherwydd ailwampio hen adeiladau a thriniaethau pren adferol.

Gobeithio bydd y darganfyddiad hwn yn arwain rhagor o waith arolwg i asesu dosbarthiad a niferoedd y rhywogaeth hon ac eraill ar draws y Sir.

**Ant Rogers.**
Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth.



**Ystlumod hirglust llwydion**
**Llun: Richard Crompton**
**Wildwood Ecology Ltd**

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

**Cyfrol 9 Rhifyn 3**
**Hydref / Gaef 2012**

# Yn y rhifyn hwn

Darganfod Rhywogaeth Ystlumod Prin yn Sir Benfro Tudalen 1

Prosiect Afancod Cymru Tudalen 2

Y Shore Thing Tudalen 3

Help Llaw i Warchod Gwir Ddreigiau Cymru! Tudalennau 3 - 4

amphibian and reptile conservation

Newyddion Pwll Melin Penfro Tudalen 4 - 5

Gloÿnnod Brithbin Brown yn West Williamson (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) Tudalen 5

Arolwg Berllannau Traddodiado Tudalen 6

people's trust for endangered species

Digwyddiad Cofnodi Bywyd Gwyllt Sir Benfro Tudalen 7

Pembrokeshire Coastal Forum
Fforwm Arfordir Sir Benfro

Eich lle i rannu natur Tudalen 8

iSpot .org.uk

Digwyddiadau Tudalennau 9 - 10

Manylion Cysylltu Tudalen 11

# Afancod Posibl Cyntaf Sir Benfro er 600 mlynedd!

Mae Prosiect Afancod Cymru yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddychwelyd afancod gwyllt (*Castor fiber*) yn ôl i Gymru. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yng Nghymru yn rhan o'u strategaeth Tirluniau Byw.

Roedd afancod ar un adeg yn gyffredin ledled Cymru ond oherwydd hela am eu ffwr, eu cig a'u chwarennau arogli roeddent wedi difodi erbyn y 15fed Ganrif. Bellach ystyrir y byddai'n briodol eu hailgyflwyno oherwydd y rôl bwysig y gall afancod ei chwarae yn cyfoethogi bioamrywiaeth a rheoli gwlypdiroedd.

Mae afancod yn 'beirianwyr yr ecosystem' ac mae'u gweithgarwch o fantais i nifer o rywogaethau eraill sy'n byw yn y gwlypdiroedd. Gallant hefyd helpu i wella ansawdd dŵr, rheoli llif, lleddfu llifogydd i lawr yr afon a lleihau erydiad afonydd. Gan fod pobl hefyd yn mwynhau eu gwylio, gall twristiaeth hefyd elwa o afancod gwyllt, gan helpu i gefnogi'r economïau lleol.


Llun: Allard Martinus

Mae afancod sy'n oedolion fel arfer tua 1.3m o hyd (sy'n cynnwys y gynffon) ac yn pwyso tua 20 cilogram. Maent yn byw mewn grwpiau o deuluoedd bach ar afonydd sy'n symud yn araf, ar nentydd a llynnoedd a chanddynt dyrchfeydd ar y lan neu mewn lletyau a adeiladwyd o frigau a mwd. Weithiau maent hefyd yn adeiladu argloddiau i wella'u cynefinoedd, ond fel arfer lle mae'r dŵr yn rhy fas (llai na 0.7m o ddyfnder) yn unig. Mae 95% o weithgarwch afancod yn digwydd o fewn 20m i ymyl y dŵr.

Llysysyddion yw afancod sy'n bwydo gan fwyaf ar borfa a phlanhigion eraill yn y gwanwyn a'r haf, a daw rhisgl coed, egin a dail yn bwysicach yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

Mae afancod wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus i 24 o wledydd ledled Ewrop heb achosi unrhyw broblemau mawr, ond weithiau maent yn gallu achosi problemau lleol y mae'n rhaid eu rheoli, megis adeiladu argae yn y lle anghywir, neu yn torri coed heb fod angen. Mae atebion eisoes ar gael ar gyfer y problemau hyn a byddai ailgyflwyno afancod yng Nghymru yn cynnwys cynllun cynhwysfawr ar gyfer eu rheoli yn y dyfodol. Mae prawf ailgyflwyno ar waith ar hyn o bryd yn Knapdale, yr Alban (Prawf Afancod yr Alban - sy'n cael ei arwain gan Ymddiriedolaeth Natur yr Alban a Chymdeithas Sŵoleg Brenhinol yr Alban) lle rhyddhawyd tri theulu o afancod ym Mai 2009. Mae'r afancod yn bridio ac yn ffynnu.

Mae gan Gymru doreth o gynefinoedd sy'n addas ar gyfer afancod ac mae dalgylch chwe afon wedi'u hymchwilio yn safleoedd posibl ar gyfer eu cyflwyno gan gynnwys Afon Teifi a breichiau Dwyreiniol a Gorllewinol Afon Cleddau. Mae safleoedd eraill yn cael eu hystyried hefyd gan gynnwys Afonydd Rheidol, Glaslyn a Dyfrdwy.

Mae ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar waith ar hyn o bryd a bydd yn helpu i ddewis y safle peilot ar gyfer ailgyflwyno afancod yng Nghymru. Gellir lawrlwytho crynodeb o'r adroddiad *An investigation into the feasibility of reintroducing European beaver to Wales* oddi ar wefan www.welshbeaverproject.org. Gall pobl hefyd ddarganfod rhagor am afancod, lawrlwytho adroddiadau ychwanegol, cael manylion diwrnodau galw heibio a rhoi adborth.

**Adrian Lloyd Jones**
Prosiect Afancod Cymru
e-bost: beaver.afanc@wildlifetrustswales.org
Ffôn: 01248 351541

## *Shore Thing* yng Ngogledd Sir Benfro

Mae grŵp gwirfoddoli newydd sy'n cydweithio â'r *Shore Thing* wedi cychwyn yng Ngogledd Sir Benfro.
Prosiect cenedlaethol yw *Shore Thing* sy'n rhan o'r Rhwydwaith Gwybodaeth Bywyd Morol, sy'n cofnodi rhywogaethau arfordiroedd creigiog ledled y DU gan sicrhau bod y data ar gael trwy gyfrwng y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Os ydych yn mwynhau chwilio drwy byllau glan môr am y creaduriaid helaeth sy'n byw ynddynt, yna ymunwch â Phrosiect *Shore Thing* Gogledd Sir Benfro ac ychwanegwch eich arsylwadau at gofnodion data cenedlaethol.

Y prif ffocws yw rhywogaethau sy'n dangos newid hinsawdd a rhywogaethau anfrodorol, ond mae'r grŵp yn cofnodi cymaint o wybodaeth â phosibl ynglŷn â phopeth a ddarganfyddir wrth gyflawni arolwg. Mae'r data a'r lluniau yn cael eu gwirio gan dîm o'r Rhwydwaith Morol Biolegol cyn eu cyhoeddi. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir ar gael ar-lein a bydd o gymorth i greu darlun o'r statws presennol a fydd yn cael ei ddefnyddio i fesur newid yn y dyfodol. Mae amlder a dosbarthiad rhywogaethau megis gwichiaid, cregyn meheryn, anemonïau, rhai crancod a nifer o wymon yn gallu rhoi gwybodaeth ynglŷn â newid hinsawdd ac iechyd ecosystemau rhynglanw.


Snakelocks Anenome mewn pwll dŵr
Llun: Trevor Theobald

Mae'r Grŵp yn defnyddio dau ddull o gynnal arolwg: chwiliad am rywogaethau sy'n cael ei amseru a thrawslun sy'n cofnodi rhywogaethau ar y glannau uwch, canol ac isaf. Mae'r trawslun yn astudiaeth fanylach sy'n gofyn am 10-15 ymchwilydd.

Cysylltwch â'r grŵp os ydych yn dymuno cymryd rhan. Nid oes angen profiad, dim ond brwdfrydedd i archwilio pyllau dwr!

**Julia Riddell**
Prosiect *Shore Thing* Gogledd Sir Benfro
E-bost: juliamarymorris@gmail.com
Ffôn: 07831 786845

## Help Llaw i Warchod Gwir Ddreigiau Cymru!

amphibian and reptile conservation

Mae Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid ar gychwyn prosiect arloesol newydd, a ariennir y gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn unswydd ar gyfer gwarchod dreigiau Cymru (amffibiaid ac ymlusgiaid) a'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt. Bwriad y prosiect (sef Cysylltu'r Gymuned â Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid Ledled Cymru) yw annog ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros fioamrywiaeth Cymru, yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl ddod i gysylltiad ag amffibiaid ac ymlusgiaid yn rhan o'r dreftadaeth naturiol sy'n eiddo i bawb yng Nghymru

Mae pum math cynhenid o ymlusgiaid a chwe math cynhenid o amffibiaid yng Nghymru. Ymhlith y rhain mae enghreifftiau prin, e.e. madfall y tywod a ddiflannodd o Gymru'n llwyr, ond yn sgil rhaglen ailgyflwyno lwyddiannus dychwelodd i'w mamwlad.

Bydd y prosiect yn cynnwys
Hyrwyddo'r dasg o gofnodi amffibiaid ac ymlusgiaid gan y cyhoedd yn eu gerddi ac yn yr awyr agored.



**Madfall y Tywod**
Llun: Amphibian & Reptile Conservation.

Cefnogi rhwydwaith bresennol y Grwpiau Amffibiaid ac Ymlusgiaid yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes grŵp yn gweithredu yn Sir Benfro. Os oes gennych ddiddordeb mewn amffibiaid ac ymlusgiaid, cysylltwch â ni.

Darparu hyfforddiant ar gyfer unigolion, grwpiau cymunedol a gweithwyr proffesiynol ym maes cadwraeth.

Cynnal Trafodaeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid Cymru ar 3 Tachwedd 2012 yn Llandrindod. Mae'r digwyddiad hwn yn agored i bawb.

Datblygu cysylltiadau a strwythurau cynllunio a datblygu i wella a diogelu poblogaethau amffibiaid ac ymlusgiaid.

Am ragor o wybodaeth, neu i sefydlu grŵp, cysylltwch â mi.
**Mark Barber** - (Swyddog Prosiect Cymru).
www.welshdragons.org
E-bost: mark.barber@arc-trust.org

## Newyddion Pwll Melin Penfro

Pembroke 21
Millpond Action Group

### Ar Gamera

Mae Grŵp Gweithredu Pyllau Melin Penfro wedi gosod rhwydwaith o gamerâu bywyd gwyllt i gael ffilm o'r bywyd gwyllt sy'n defnyddio Pyllau Melin Penfro.

Yn dilyn ffilmiau llwyddiannus o ddyfrgwn ger Millbridge, rydym wedi ychwanegu tri o gamerâu i'r rhwydwaith a byddwn yn gosod rhagor. Hyd yn hyn rydym wedi cael ffilm ddiddorol o ddyfrgwn, moch daear, llwynogod a llygoden hyd yn oed. Dangoswyd y ffilm yn ystod lansiad y Rhwydwaith ar 25 Mehefin, ac yn bresennol roedd ein harianwyr sef Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, y Maer Mel Phillips, y Cyng. Daphne Bush a nifer o rai eraill. Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Geoff Liles o *Otter Consultancy* ynglŷn â dyfrgwn Sir Benfro yn ogystal â dangos ffilm o'r dyfrgwn o'r camerâu yn Millbridge.



Llun: Amphibian & Reptile Conservation

## Dosbarth Awyr Agored Pwll Melin Penfro



Teuluoedd yn mwynhau un o'r Digwyddiadau Darganfod Bywyd Gwyllt ym Mhwll felin Penfro
Llun: Jo Brookman

Rydym wedi bod yn creu Ardal Addysg gerllaw Tŵr Bernard er mwyn i ysgolion, grwpiau ac unigolion archwilio bywyd gwyllt mewn amgylchedd diogel ac ymarferol. Rydym wedi bod yn defnyddio ein llwyfan Pwll-trochi yn ystod y gwanwyn a'r haf eleni a bydd meinciau'r Dosbarth Awyr Agored yn cael eu gosod ar ddiwedd mis Awst. Mae'r meinciau a'r bwrdd wedi'u cerfio gan Uned Priordy Monkton a'r cerflunydd Rob Jakes. Bydd agoriad swyddogol ar ddechrau tymor yr Hydref er mwyn i ysgolion a grwpiau lleol roi cynnig ar y cyfleusterau newydd ac i ddathlu gwaith y bobl ifanc o Uned Priordy.

**Jo Brookman**
Swyddog Prosiect Pyllau Melin Penfro
Ffôn: 01646 680090
e-bost:
pembrokemillponds@pembroke21c.org



Cerfio meinciau yn y Priordy yng Nghil-maen

## Gloÿnnod Brithbin Brown yn West Williamson (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig)

Bydd y Frithbin Frown wrywaidd yn ymddangos ar ddiwedd mis Gorffennaf a bydd y benywod yn ymuno â nhw ar frig y coed Onnen.

Eleni, gobeithir canfod y goden ymgynnull lle mae'r oedolion yn cyfarfod ac yn cyplu. Rhai oedolion yn unig a welwyd y llynedd ac mae'n ymddangos bod y gyfradd oroesi dros y gaeaf yn llai na'r arfer (tuedd a welwyd hefyd yn Swydd Gaerwrangon a Swydd Rhydychen). Bydd unrhyw olwg ohonynt wrth ymweld â'r warchodfa yn bwysig - cofiwch drosglwyddo unrhyw gofnod gan gynnwys disgrifiad o'r ymddygiad a lle y cafodd y glöyn ei weld os yn bosibl.
Eleni bydd cyfri wyau'r gaeaf yn cael ei gynnal ddydd Sul 2 Rhagfyr - pawb i gyfarfod am 10.00am yn y maes parcio. Croeso i bawb.

**Nikki Anderson**
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
pembrokenikki@hotmail.co.uk



**Benyw sydd newydd ymddangos**
Llun: Jean Hambly

# A yw Perllannau Traddodiadol Cymru Wedi Mynd i'r Gwellt?



**Angen gwirfoddolwyr ar frys i gynnal arolwg yng Nghymru**

Mae'r *People's Trust for Endangered Species* (PTES) yn chwilio am wirfoddolwyr i gymryd rhan yn yr arolwg cyntaf o'i fath ar berllannau traddodiadol yng Nghymru.

Ers diwedd y 1950au, mae 94% o berllannau Cymru wedi diflannu oherwydd pwysau amaethyddol y farchnad fyd-eang a phwysau datblygu tir. Yn ogystal, nid ydym yn gwybod beth yw cyflwr na lleoliad y perllannau traddodiadol sydd ar ôl yng Nghymru. Diolch i arian gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Sefydliad Esmée Fairbairn, mae PTES yn mapio ac yn asesu cyflwr y perllannau sydd ar ôl yng Nghymru, a bydd hyn yn arwain at restr gynhwysfawr a fydd yn sail i'r gwaith o warchod y cynefin unigryw hwn sydd dan fygythiad.

"Mae perllannau traddodiadol yn llawn bioamrywiaeth," esbonia Steve Oram, Cydlynydd Prosiect Perllannau PTES. "Ble arall allwch chi weld cnau'r ddaear, gwenyn cwcw pedwar lliw, tylluanod bach, hirheglod cyrn cribog a llu o chwilod, mwsoglau, gwyfynod a chennau prin mewn un lle? Mae ein perllannau'n gartref i amrywiaeth eang o fwy na 1800 o rywogaethau, yn ogystal â chynnig bwyd cartref blasus. Mae perllannau'n lloches hollbwysig i fywyd gwyllt, ond maen nhw'n diflannu oherwydd y newidiadau yn nefnydd y tir a chan nad oes coed newydd yn cael eu plannu i gymryd lle'r hen goed. Oni bai ein bod yn gwybod yr hyn sydd gennym ar ôl ac yn lle y mae e, go brin y gallwn ei achub."

Fel arfer mae perllannau traddodiadol yn cynnwys rhywfaint o goed ar laswelltir. Caiff y coed eu meithrin trwy ddefnyddio dulliau dwysedd isel, heb ddefnyddio plaladdwyr, gwrtaith na chwynladdwyr cemegol. Hefyd, cânt eu pori neu eu torri ar gyfer gwair. Mae ymchwilwyr PTES yn astudio awyrluniau o'r 3.5 miliwn o hectarau sydd yng Nghymru. Hawdd iawn yw gweld pa berllannau sy'n cael eu rheoli trwy ddefnyddio dulliau modern, dwys oherwydd eu bod yn tueddu i gael eu tyfu mewn rhesi cul. Hefyd, pridd noeth sydd dan y coed yma, ac fel arfer mae'r coed yn llai. Hyd yn hyn, mae mwy na 5,000 o berllannau traddodiadol posibl wedi cael eu nodi a gellir gweld map ohonyn nhw ar www.ptes.org/orchardmaps. Bellach, mae angen gwirfoddolwyr i wirio'r canlyniadau a dod o hyd i berllannau sydd heb eu nodi hyd yn hyn.

Yn 2011, cwblhaodd PTES brosiect ymchwil pedair blynedd. Yn ôl y canlyniadau, mae 45% o'r perllannau traddodiadol sydd ar ôl yn Lloegr mewn cyflwr gwael. Gobaith yr elusen yw y bydd sefyllfa Cymru yn well o lawer na hyn.

Os hoffech wirfoddoli i gymryd rhan yn y gwaith o fapio perllannau traddodiadol, cysylltwch â Lauren Alexander, Swyddog y Prosiect Perllannau.

**Lauren Alexander**
PTES
Ffon: 020 7498 4533
e-bost:
lauren.alexander@ptes.org.



# Digwyddiad Cofnodi Bywyd Gwyllt Sir Benfro 2012

Bydd Fforwm Arfordir Sir Benfro yn trefnu 'Digwyddiad Cofnodi Bywyd Gwyllt Sir Benfro' eleni ar 21 Tachwedd yn Theatr Merlin, Coleg Sir Benfro. Hwn fydd y pumed digwyddiad a drefnwyd gan dîm y Fforwm a'r bwriad yw dathlu amrywiaeth y bywyd gwyllt yn Sir Benfro. Mae'r digwyddiad hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r camau y gallwn ni i gyd eu dilyn i sicrhau bod ein hamgylcheddau a'n bywyd gwyllt lleol yn cael eu meithrin a'u diogelu i'r dyfodol.

Bydd y digwyddiad yn codi arian i gefnogi gwaith grwpiau Siarter Awyr Agored a Chod Morol Sir Benfro i ddatblygu a chyhoeddi arfer gorau a hyfforddiant i'r rheini sy'n dymuno gwneud y gorau o'r amgylcheddau a'r bywyd gwyllt hardd yn Sir Benfro.

Bydd chwe siaradwr yn rhannu'u storïau a'u delweddau o'r bywyd gwyllt y maent wedi'i weld yn Sir Benfro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod digwyddiadau blaenorol, cafwyd cyflwyniadau'n ymdrin â phynciau megis morfilod ffyrnig, rhywogaethau newydd o ystlumod, capanog y môr a microbioleg y gellir eu gweld trwy ficrosgopau pŵer uchel yn unig.

Eleni bydd yr Entomolegydd lleol llwyddiannus, y Ffermwraig a'r cyflwynydd teledu Sarah Beynon yn siarad ar y pwnc '*All About Beatles*', a phwysigrwydd rheoli tir i annog bywyd gwyllt. Bydd Lyndon Lomax yn rhannu ei storïau a'i ddelweddau o'r '*Magnificent 9*' (a rhagor o bosibl ar ôl yr haf!) – sef naw rhywogaeth o lamhidyddion, dolffiniaid a morfilod y mae wedi'u gweld yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar hyd arfordir Sir Benfro.

Yn rhan o'r digwyddiad bydd y Fforwm yn cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth bywyd gwyllt sy'n agored i bawb ynghyd â gwobrau i'r enillwyr a fydd yn cael eu dewis gan banel o feirniaid lleol. Os ydych am roi cynnig arni, anfonwch uchafswm o dri ffotograff o fywyd gwyllt yr ydych wedi'i weld yn Sir Benfro oddi ar 1 Ionawr 2011 (ni ddylai'r ffotograffau fod yn fwy na 1Mb yr un) at pcf@mhpa.co.uk (Ewch i www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk am y telerau ac amodau llawn).


'Early Bird' Photo: Paul Richards. Winning entry 2010

Os oes gennych unrhyw argymhellion am siaradwyr eleni, neu os ydych chi eich hun yn dymuno rhoi cyflwyniad, cysylltwch â thîm y Fforwm ar yn pcf@mhpa.co.uk neu 01646 696134

Cyhoeddir manylion archebu cyn hir – i sicrhau eich bod yn cael gwahoddiad dewch yn aelod o Fforwm Arfordir Sir Benfro trwy gyfrwng y wefan www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk neu ffoniwch 01646 696171 – mae'n rhad ac am ddim i ymuno!

**Tom Luddington**
Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro

**Pembrokeshire Coastal Forum**
Fforwm Arfordir Sir Benfro

## iSpot: Eich lle i rannu natur

Mae cynyddu diddordeb y cyhoedd a deall bywyd gwyllt a bioamrywiaeth lleol wedi bod yn flaenoriaeth i sefydliadau cadwraeth, cyrff llywodraethol a hefyd nifer o arbenigwyr unigol a phobl frwdfrydig sy'n gweithio yn y maes. Dull arloesol newydd i annog diddordeb y cyhoedd mewn natur yw www.iSpot.org.uk. Mae'n wefan sy'n cael ei rhedeg gan y Brifysgol Agored a chafodd ei datblygu yn rhan o'r prosiect Labordai Awyr Agored (www.opalexplorenature.org

Nod iSpot yw creu rhwydwaith cymdeithasol o gwmpas bioamrywiaeth gan gysylltu dechreuwyr ag arbenigwyr ac annog cenhedlaeth newydd o naturiaethwyr a chofnodwyr. Mae'n agored i bawb, boed yn wylwyr rhaglenni natur, yn grwpiau cymunedol neu'n ysgolion, i arbenigwyr sy'n flaenllaw yn eu maes. Cafodd ei lunio i helpu pobl i rannu'u cariad at fywyd gwyllt, i ddysgu rhagor am y bywyd y gwyllt o'u cwmpas ac i gael cymorth gan eraill i nodi'u harsylwadau am fywyd gwyllt. Ar gyfer sefydliadau, gweithwyr proffesiynol ac unigolion sy'n arbenigwyr, mae iSpot yn cynnig fforwm i rannu'u harbenigedd â'r cyhoedd ac i gysylltu â sefydliadau eraill ac unigolion sy'n arbenigwyr ledled y DU.

Mae iSpot yn dal i ddatblygu. Gall defnyddwyr weld dosbarthiad unrhyw rywogaeth a nodir a hefyd pori map dosbarthiad o holl arsylwadau iSpot. Mae'r safle yn cynnal allwedd adnabod sy'n hawdd ei ddefnyddio ac yn cynyddu o hyd. Mae hefyd ar gael yn App ar gyfer ffôn symudol neu ddyfais llaw arall - gweler .http://www.ispot.org.uk/mobilekeys/.



**Lindys Gwyfynod Blaen Brigau (*Phalera bucephala*)**
Llun gan Clare Flynn
(http://www.ispot.org.uk/node/216339)



**Tegeirian Hybrid Ettlinger (*X Dactylodenia ettlingeriana*)** Llun gan Tim Rich / Amgueddfa Genedlaethol

Os ydych chi, eich grŵp neu'ch sefydliad yn dymuno darganfod rhagor, ewch ar-lein a phorwch drwy wefan www.iSpot.org.uk. Os ydych eisoes yn gwybod tipyn am fywyd gwyllt byddem yn falch iawn pe bai modd i chi roi ychydig o'ch amser i helpu eraill ar y safle. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ewch i'r tab Help sy'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol a manylion cyswllt ar gyfer tîm iSpot.

**Clare Flynn**
Cyn Fentor Bioamrywiaeth Cymru

iSpot .org.uk

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth Medi - Hydref 2012

| Dyddiad | Teitl | Manylion |
|---|---|---|
| 01 Medi<br>11:00 – 17:00 | *Mosses and Liverworts*<br>Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru<br>01239 621600 | Mwsogl a Llysiau'r Afu gyda Sam Bosanquet o Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Cyfarfod yn Waungwiel Fach, Pump-hewl, ger Cydweli (SN450087) am 11.00 am neu dewch â phecyn bwyd ac aros am daith o gwmpas y fferm am 2.00pm. |
| 03 Medi<br>17:30 | Parti Gwaith Gwirfoddolwyr<br>01646 680090 | Gwaredu ysgallen y maes yng nghoed Holyland gyda Grŵp Gweithredu Pyllau Melin Penfro |
| 05 Medi<br>09:45 | Taith Morloi<br>Oriel Y Parc<br>01834 845040 | Bws a thaith gerdded chwe milltir. Ewch ar y Celtic Coaster o Oriel y Parc yn Nhyddewi i Sant Justinian a cherdded yn ôl ar hyd Llwybr yr Arfordir gan aros ar y ffordd. Cofiwch ddod â sbienddrychau ac arian am y bws. Cofiwch ddillad cynnes, esgidiau addas. Dim cŵn. ARCHEBU'N HANFODOL |
| 13 Medi<br>15:00 – 17:00 | Clwb Gardd Natur<br>Tŷ Foundry 01646 680090 | Ymunwch a'r Clwb Gardd Natur yn Nhŷ Foundry gyda Chymdeithas Cymunedol 21C Penfro |
| 14 Medi<br>09:45 | Taith Morloi<br>Oriel Y Parc<br>01834 845040 | Bws a thaith gerdded chwe milltir. Ewch ar y Celtic Coaster o Oriel y Parc yn Nhyddewi i Sant Justinian a cherdded yn ôl ar hyd Llwybr yr Arfordir gan aros ar y ffordd. Cofiwch ddod â sbienddrychau ac arian am y bws. Cofiwch ddillad cynnes, esgidiau addas. Dim cŵn. ARCHEBU'N HANFODOL |
| 15 Medi<br>10:30 – 16:00 | Taith gerdded o gwmpas Pwll Deri a Phen-caer<br>Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru<br>01239 621600 | Taith gerdded o gwmpas Pwll Deri a Phen-caer gydag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyfarfod am 10.30am yn SM893387 ger ochr y ffordd ger yr olygfa. Dewch â phecyn bwyd. Arweinydd Robin Taylor |
| 19 Medi<br>09:45 | Taith Morloi<br>Oriel Y Parc<br>01834 845040 | Bws a thaith gerdded chwe milltir. Ewch ar y Celtic Coaster o Oriel y Parc yn Nhyddewi i Sant Justinian a cherdded yn ôl ar hyd Llwybr yr Arfordir gan aros ar y ffordd. Cofiwch ddod â sbienddrychau ac arian am y bws. Cofiwch ddillad cynnes, esgidiau addas. Dim cŵn. ARCHEBU'N HANFODOL |
| 19 Medi<br>Dusk | Canfod Ystlumod<br>Pwll Melin Penfro | Taith gerdded a chanfod ystlumod ger y Pwll Melin gydag Grŵp Gweithredu Pyllau Melin. Cost £3.01646 680090 |
| 28 Medi<br>09:45 | Taith Morloi<br>Oriel Y Parc<br>01834 845040 | Bws a thaith gerdded chwe milltir. Ewch ar y Celtic Coaster o Oriel y Parc yn Nhyddewi i Sant Justinian a cherdded yn ôl ar hyd Llwybr yr Arfordir gan aros ar y ffordd. Cofiwch ddod â sbienddrychau ac arian am y bws. Cofiwch ddillad cynnes, esgidiau addas. Dim cŵn. ARCHEBU'N HANFODOL |
| 15 Hydref<br>19:30 | Cyfarfod Blynyddol a Sgwrs<br>Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru<br>01239 621600 | Cyfarfod blynyddol Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru<br>gyda sgwrs i ddilyn ar Ddyfrgwn gan Rob Parr. Canolfan Gymunedol Furzy Park, Hwlffordd |

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth
# Hydref - Rhagfer 2012

| Dyddiad | Teitl | Manylion |
|---|---|---|
| 17 Hydref<br>Dusk | Canfod Ystlumod<br>Pwll Melin Penfro 01646 680090 | Canfod ystlumod ar gyfer plant ym Mhwll Melin gyda Grŵp Gweithredu Pyllau Melin. Cost £2 y plentyn. |
| 21 Hydref<br>10:00 – 16:30 | Ymweliad ag Ynys Dewi<br>WTSWW<br>01239 621600 | Ymweliad ag Ynys Dewi. Prynwch eich tocynnau o'r Swyddfa 'Thousand Islands' yn Nhyddewi a chyfarfod ger gorsaf bad achub Sain Justinian i hwylio am 10am. Arweinydd Robin Taylgor. Dewch â phecyn bwyd. |
| 29 Hydref<br>11:00 – 15:00 | Antur Coedwig Wyllt<br>01834 811885 | Gwyliwch y bywyd gwyllt yn y goedwig yn paratoi ar gyfer y Gaeaf yn y gweithgareddau hyn ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu harwain gan Geidwaid a hynny mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Dewch yn eich dillad awyr agored. £3 y person. ARCHEBU'N HANFODOL. Mae'r diwrnod yn cynnwys sesiynau awr o hyd yn yr awyr agored ynghyd â gweithgareddau crefft dan do a gwyddoniaeth ymarferol. Rhywbeth ar gyfer y teulu cyfan. |
| 30 Hydref<br>11:00 – 15:00 | Antur Coedwig Wyllt<br>01834 811885 | Gwyliwch y bywyd gwyllt yn y goedwig yn paratoi ar gyfer y Gaeaf yn y gweithgareddau hyn ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu harwain gan Geidwaid a hynny mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Dewch yn eich dillad awyr agored. £3 y person. ARCHEBU'N HANFODOL. Mae'r diwrnod yn cynnwys sesiynau awr o hyd yn yr awyr agored ynghyd â gweithgareddau crefft dan do a gwyddoniaeth ymarferol. Rhywbeth ar gyfer y teulu cyfan. |
| 31 Hydref<br>11:00 – 15:00 | Antur Coedwig Wyllt<br>01834 811885 | Gwyliwch y bywyd gwyllt yn y goedwig yn paratoi ar gyfer y Gaeaf yn y gweithgareddau hyn ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu harwain gan Geidwaid a hynny mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Dewch yn eich dillad awyr agored. £3 y person. ARCHEBU'N HANFODOL. Mae'r diwrnod yn cynnwys sesiynau awr o hyd yn yr awyr agored ynghyd â gweithgareddau crefft dan do a gwyddoniaeth ymarferol. Rhywbeth ar gyfer y teulu cyfan. |
| 31 Hydref | *Understanding Protected Species*<br>Canolfan Stackpole<br>01792 295379 | Cyflwyniad i ecoleg, deddfwriaeth a thechnegau arolygu Rhywogaethau a Ddiogelir. Tiwtor: Dr Gethin Thomas Prifysgol Abertawe |
| 19 Tach<br>19:30 – 21:30 | *Marine Wildlife of our Shallow Seas.*<br>WTSWW 01239 621600 | Sgwrs gan John Archer-Thomson o Ganolfan Astudiaethau Dale Fort Field. Canolfan Gymunedol Furzy Park, Hwlffordd |
| 20 Tach<br>19:30 – 21:30 | *Wildlife of the Teifi Marshes.*<br>WTSWW 01239 621600 | Y Swyddog Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Nathan Walton yn siarad am y bywyd gwyllt ar gorsydd y Teifi gan roi'r manylion diweddaraf ynglŷn â Chanolfan Bywyd Gwyllt Cilgeran. |
| 21 Tach | Digwyddiad Cofnodi Bywyd Gwyllt 01646 696171 | Dathliad yn Theatr Merlin, Hwlffordd, o'r holl fywyd gwyllt a welwyd yn Sir Benfro eleni. Gweler erthygl 5 am fanylion. |

## Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

**This newsletter is also available in English, contact Bethan for an English copy.**

*Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.*

## Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

## Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tirfeddianwyr

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru

Y Comisiwn Coedwigaeth

Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt

Manor House Wildlife Park

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru

Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro



## Blwyddyn yr Ystlum 2011-2012

Cyngor Sir Penfro

Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu

Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru




**Ymwelwch â ni ar Facebook:**
http://www.facebook.com/PembrokeshireBiodiversity



**Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**
**anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551**